Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

6. Cyflogi a rheoli pobl

6.6 Cynhyrchu datganiad ysgrifenedig

Mae'n ofynnol arnoch chi, yn ôl Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, i ddarparu gweithwyr, o fewn 2 fis i ddechrau'u cyflogaeth, gyda datganiad ysgrifenedig sy'n rhoi crynodeb o brif fanylion y gwaith. Mae hwn yn dystiolaeth cytundeb y gyflogaeth, sef cytundeb cyfreithiol rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr a ffurfiwyd pan fo'r gweithiwr yn cytuno gweithio i'r cyflogwr am dâl.

Mae'r ddeddf yn gofyn am gynnwys gwybodaeth allweddol yn y datganiad ysgrifenedig. Mae hawl gennych gyfeirio gweithwyr at ddogfennaeth arall, ond dim ond ar gyfer rhai meysydd.

Dylid ysgrifennu'r datganiad mewn dull clir i osgoi camddealltwriaeth ac amwysedd. Er nad oes gofyn cyfreithiol i'r gweithiwr lofnodi'r datganiad, bydd y rhai sy'n gwneud hynny wedi darllen y datganiad. Dylid cadw copi o'r datganiad ysgrifenedig yn ffeil personél y gweithiwr ar gyfer y dyfodol.

Mae'r canlynol yn enghraifft o ddatganiad ysgrifenedig, a ddylid ei addasu ar gyfer eich mudiad, ac nid yw'n ddehongliad awdurdodol o'r gyfraith. Gallwch ychwanegu gwybodaeth ategol megis Iechyd a Diogelwch, Ymddygiad, Cyfrinachedd, Cyfleoedd Cyfartal ac Amrywiad Termau ac Amodau Cyflogaeth.

Enghraifft o ddatganiad ysgrifenedig

Cyflogwr: <*Enw'r mudiad*>

Gweithiwr <*Enw'r gweithiwr*>

1. Dechreuad Cyflogaeth a Chyflogaeth Barhaus

Dechreuodd eich cyflogaeth gyda'r mudiad yma ar <*rhowch y dyddiad*>.

Mae eich cyflogaeth flaenorol gyda <*cyflogwr*> yn cyfri / ddim yn cyfri* fel rhan barhaus o'ch cyfnod cyflogaeth.

**(D.S. Mae cyfnod cyflogaeth yn cyfri tuag at wasanaeth parhaus y gweithiwr os yw'n ddi-dor yn unig. Os oes cyfuniad neu drosfeddiannu, dylid derbyn cyngor pellach gan ACAS).*

2. Teitl y swydd: Fe'ch cyflogir fel <*teitl y swydd*>. (Efallai byddwch angen cynnwys disgrifiad byr o'r gwaith a wneir).

Hefyd, efallai byddwch angen cynnwys unrhyw fanylion yn ymwneud â chyfnodau prawf (e.e. cyfeirio at bolisi prawf).

3. Daliadaeth cyflogaeth*:* Cynhwyswch ddyddiad gorffen os yw'r swydd am derm cyfyng yn unig.

4. Lleoliad gwaith

Eich lleoliad gwaith arferol yw <*lleoliad gwaith*>. (D.S. os oes gofyniad symudoledd i'r gweithiwr i symud i leoliad gwaith arall, neu weithio rhywle arall, rhaid nodi hynny yma).

5. Cyflog

Eich cyflog fydd <*rhowch y cyflog gros (cyn treth)*> y flwyddyn. Cewch eich talu <*rhowch ddull y talu*> ar <*rhowch fynychder y talu h.y. misol, wythnosol*>. (D.S. Cynhwyswch yma unrhyw fanylion bonws / oriau tros ben, didyniadau o'r cyflog. Gallwch hefyd gyfeirio at y polisi treuliau).

6. Oriau gwaith

Bydd angen i chi weithio < *Nodwch oriau arferol gwaith, gan gynnwys unrhyw hyblygrwydd*>. (D.S. os oes gofyniad am oriau tros ben gorfodol, gwirfoddol neu warantedig, rhaid ei nodi yma, ynghyd â gwybodaeth rhybudd - er mwyn sicrhau eich bod yn ystyried gofynion Rheoliadau Amser Gwaith).

7. Gwyliau

Mae gennych hawl <*nifer diwrnodau*> gwyliau y flwyddyn <*nodwch os yw hyn yn cynnwys gwyliau cyhoeddus neu beidio*>. *Cofiwch fod hawl gan weithiwyr gael 28 diwrnod (5.6 wythnos) o wyliau bob blwyddyn sy'n cynnwys gwyliau cyhoeddus yn ôl Rheoliadau Amser Gwaith (Gwelliant) 2007.* Mae'r flwyddyn yn rhedeg o <*nodwch y dechrau*> i <*nodwch y diwedd*>. (D.S. efallai y byddwch eisiau nodi sut y cronnir gwyliau, gan gynnwys staff rhan amser).

8. Absenoldeb o'r gwaith

Os na fedrwch ddod i'r gwaith am unrhyw reswm, dylech ffonio <*nodwch yr enw cyswllt*> erbyn <*nodwch yr amser*> ar ddiwrnod cyntaf eich absenoldeb, gan nodi'r rheswm, a phryd fyddwch yn debygol o ddychwelyd i'r gwaith.

Gallwch gyfeirio gweithwyr at ddogfennau absenoldeb salwch, a fydd yn manylu amodau Tâl Salwch Statudol neu Dâl Salwch Galwedigaethol, os yn berthnasol, ac unrhyw amodau eraill (e.e. hyd y gwasanaeth, rheolau tystiolaeth).

9. Pensiwn *(os yn berthnasol)*

Fe'ch anogir i ymuno â < *y cynllun pensiwn*> ac mae manylion ysgrifenedig ar gael yn < *cyfeiriwch at ddogfen arall os yn berthnasol*>. Bydd <*y cyflogwr*> yn cyfrannu <*swm*> y cant o'ch cyflog blynyddol i'r cynllun yma.

(D.S. Os ydych yn cyflogi 5 neu fwy o weithwyr, mae gofyn i chi ddarparu cynllun pensiwn budd-ddeiliad).

10. Rheolau disgyblaethol

Gellwch weld y dull disgyblaethol sy'n perthyn i chi yn <*nodwch y dull disgyblaethol perthnasol*>. *(D.S. efallai y byddwch eisiau nodi'r dull statudol 3 cham).*

11. Rheolau Cwyn

Os oes gennych gwyn am eich cyflogaeth, dylech gyfeirio at <*nodwch y dull cwyn perthnasol*>. *(D.S. efallai y byddwch eisiau nodi'r dull statudol 3 cham).*

11. Gorffen eich cyflogaeth

Mae eich cytundeb yn amodol ar rybudd fel a ganlyn:

(D.S. Mae'n annoeth i fudiadau roi cytundebau cyfnod penodol, hyd yn oed os yw'r swydd wedi'i ariannu am ddwy flynedd er enghraifft. Mae'n well i roi cytundebau arferol ac wedyn gwneud y swydd yn ddiangen. Gallwch roi gwybod i'r ymgeiswyr yn y cyfweliad fod yr ariannu yn ddiogel am x o flynyddoedd).

Oddi wrthych chi
Ar ôl un mis, rhaid i chi roi wythnos o rybudd i orffen eich cyflogaeth. *(D.S. dyma'r lleiafswm statudol; efallai y byddwch eisiau'i gynyddu fel bo angen, gan gofio cadw'r amser yn rhesymol).*

Oddi wrth y <*Cyflogwr*>
Y cyfnod lleiaf sydd gennych hawl iddo yw un wythnos am bob blwyddyn o wasanaeth gyda lleiafswm o 1 wythnos ac uchafswm o 12 wythnos rhybudd.

(D.S. Efallai y byddwch angen ychwanegu fod y Cyflogwr yn cadw'r hawl i dalu cyflog yn lle rhybudd)

Datganiad

Yr wyf wedi darllen ac yn cytuno â'r termau a'r amodau yn y datganiad yma

Llofnodwyd……

Enw……

Dyddiad……

Gwybodaeth bellach

ACAS
Ffôn: 08457 474747
www.acas.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.